Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd
# Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Fframwaith ar gyfer codi ymwybyddiaeth, ymestyn cyrhaeddiad a chyflawni effaith ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol

2021 - 2024

# 1 Cefndir

Mae'r pandemig coronafeirws wedi gwneud y cyhoedd yn llawer mwy ymwybodol o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd pobl nad oeddent erioed wedi ystyried ymchwil o'r blaen yn sôn am ddatblygu brechlyn, treialon clinigol a thriniaethau fel fflam o obaith yn erbyn y feirws marwol.

Cynigiodd treialon brechlyn lluosog, a gafodd eu cynnal ledled Cymru, gyfleoedd i rannu'r broses ymchwil glinigol gyda'r cyhoedd yn gyffredinol ar deledu a radio cenedlaethol, ac yn y wasg. Dyma gyfle i fanteisio ar y momentwm hwn; i ddefnyddio llwyddiant y gwaith o ddatblygu'r brechlyn a'i gyflwyno i ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd, er mwyn i bobl ledled Cymru weld manteision a phwysigrwydd yr holl ymchwil ac yn y pen draw i gyfranogi a chymryd rhan.

Cafodd y ddogfen hon ei datblygu ar y cyd ag adborth a dealltwriaeth gan weithgor[i] sy'n cynnwys arweinwyr cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd o bob rhan o gymuned Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac aelodau o'r cyhoedd.

### Beth yw ymgysylltu â'r cyhoedd?

Diffiniad ymgysylltu â'r cyhoedd yw "pan fo gwybodaeth am ymchwil yn cael ei darparu a'i lledaenu".[1]


Gobaith y strategaeth hon yw nodi ffyrdd o gyflawni ymgysylltiad â'r cyhoedd sydd yn wirioneddol ystyrlon, a fydd yn galluogi nifer fawr o bobl amrywiol o Gymru i gael eu hysbrydoli i ganfod sut y gallant gyfrannu at effeithio ar fywydau eu hanwyliaid.

Rydym yn deall bod nifer o ffyrdd y gall pobl ymgysylltu ag ymchwil, ac na fydd y rhai nad ydynt mor gyfarwydd ag ymchwil, yn defnyddio/deall terminoleg sy'n benodol i'r sector. Er mwyn hwylustod, gweler isod rai diffiniadau a thermau ac ymadroddion hawdd eu deall y byddwn yn eu defnyddio yn y ddogfen hon.

| Termau ac ymadroddion | Enghreifftiau |
|---|---|
| Ymgysylltu â'r Cyhoedd / darganfod mwy | Clicio ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, hoffi a rhoi sylwadau ar sianeli cymdeithasol, bod yn bresennol mewn digwyddiadau, cofrestru ar gyfer bwletinau |
| Cynnwys y Cyhoedd / helpu i lunio | Darparu profiad personol i helpu i lunio ymchwil, gosod blaenoriaethau ymchwil drwy roi sylwadau ar ddogfennau cleifion, mynychu grwpiau ffocws, gweithgorau ac ati. |
| Cyfranogi / bod yn rhan o | Bod yn rhan o dreial clinigol a mathau eraill o astudiaethau ymchwil megis holiaduron, arsylwadau a grwpiau ffocws |

Ymgysylltu yw'r cam cyntaf tuag at weithredu pellach, nid yw hon yn strategaeth ar gyfer cynnwys y cyhoedd na sicrhau eu cyfranogiad, ond mae ymgysylltu da, yn ei hanfod, yn hwyluso gweithredu. Bydd cyfathrebu clir yn cefnogi'r cynnydd o ran cyfranogiad a chynnwys y cyhoedd a bydd yn gatalydd i bobl ffonio, cofrestru a chlicio i gael rhagor o wybodaeth.

[1] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR)




Mae'r sector ymchwil yn glir o ran y derminoleg a diffiniadau ynghylch sut y gall y cyhoedd ymgysylltu ag ymchwil ond yn y ddogfen hon (ac mewn gohebiaethau eraill) rydym eisiau bod mor glir, syml ac anffurfiol â phosibl - er mwyn peidio â dychryn pobl, neu beri iddynt beidio ag ymgysylltu ag ymchwil ledled Cymru.

Mae'r ddogfen strategaeth hon yn darparu gwybodaeth am yr ystyriaethau a'r ddealltwriaeth gyd-destunol sydd wedi bod o gymorth i'r gweithgor wrth ddatblygu rhai o'r syniadau i helpu i weithredu'r strategaeth hon, ynghyd â mesurau fel dangosyddion perfformiad allweddol a dulliau gwerthuso.

## 2 Gweledigaeth

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n helpu i roi ymchwil ar waith, gan sicrhau eu bod yn gwybod pa ymchwil sy'n cael ei chynnal, sut i ymwneud â hi, sut i gymryd rhan ynddi, ac yn bwysicaf oll sut y mae'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i nodi yng ngweledigaeth Darganfod eich Rôl a gafodd ei chyd-greu gan bartneriaid Llywodraeth Cymru, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r strategaeth ymgysylltu'n bwrpasol â'r cyhoedd arfaethedig ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Ein gweledigaeth yw cael cynifer o bobl â phosibl ledled Cymru i ddeall pwysigrwydd ymchwil a bwriadwn wneud hyn drwy:

1. Arddangos gwerth a phwysigrwydd ymchwil drwy rannu storïau o ddiddordeb dynol i ysbrydoli eraill i ddarganfod mwy, cymryd rhan a helpu gydag ymchwil
2. Dathlu'r ymchwil sy'n bodoli eisoes yng Nghymru a'i heffaith o ran gwella triniaeth a gofal
3. Cefnogi'r rhai sy'n chwarae rhan allweddol ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn dangos ffydd ac arbenigedd mewn ymchwil
4. Cyrraedd mwy o bartneriaid ymchwil o drawstoriad o gymunedau ledled Cymru

**Yn gryno, mae'r strategaeth yn amlygu *effaith* ymchwil a bydd yn cynorthwyo mwy o bobl i ddarganfod mwy am ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a helpu i'w llunio a bod yn rhan ohoni.**

## 3 Cynulleidfaoedd

Mae'n rhaid i ymgysylltu ystyrlon, sef y cam cyntaf ar y daith tuag at gynnwys y cyhoedd a sicrhau eu cyfranogiad, fod yn rhan annatod o gymuned y GIG, gofal cymdeithasol ac ymchwil. Mae angen gohebiaethau ar wahân sydd wedi'u targedu i sicrhau amgylchedd

ffyniannus sy’n canolbwyntio ar ymchwil yng Nghymru er mwyn i aelodau’r cyhoedd fod yn rhan ohono.

Mae pob neges yn adlewyrchu adborth gan rwydweithiau sydd eisoes wedi’u sefydlu, y gweithgor cynghori ar ymgysylltu â’r cyhoedd a’r sawl a oedd yn bresennol yn y fforymau darganfod eich rôl.

Y cyhoedd a holl gleifion a defnyddwyr gwasanaeth posibl yng Nghymru sydd wedi’u nodi’n gynulleidfa darged. Gan ddeall nad yw’n bosibl cyfathrebu’n effeithiol â grŵp mor fawr â hwn, bydd rhannu a blaenoriaethu yn helpu i gyflawni effaith. Bydd y strategaeth yn cael ei gweithredu fesul cam, gan roi amser ar gyfer myfyrio a mireinio.

Canolbwynt y cam cyntaf yw:

- Targedu’r cyhoedd – i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o effaith ymchwil i annog rhai i gymryd rhan pan ofynnir iddynt neu i chwilio am ffyrdd o helpu
- Cyfathrebu ag aelodau o staff y GIG a gofal cymdeithasol nad ydynt yn rhai ymchwil – gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymchwil o fewn gofal/triniaeth o ddydd i ddydd
- Galluogi ymchwilwyr, arweinwyr ymchwil ac arweinwyr arbenigol – i weithredu fel llysgenhadon a hyrwyddo ymgysylltu ym maes ymchwil yn fewnol i aelodau eraill o staff ac yn allanol i ddarpar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau

Mae gan y broses o ymgysylltu â’r cyhoedd amrywiaeth o ffurfiau er mwyn osgoi eithrio unrhyw grwpiau. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn rhan annatod o bob ymgysylltiad er mwyn sicrhau y cyrhaeddir grwpiau na wasanaethir yn ddigonol a’r rhai nad ydynt, yn draddodiadol, wedi ymgysylltu ag ymchwil. Hefyd, mae’n rhaid i gyfranogwyr ymchwil, yn gyfunol, adlewyrchu poblogaeth Cymru mor gywir â phosibl.

Mae angen cynnal gwaith i nodi’r partneriaid ymchwil y mae angen i ni gyfathrebu â nhw, er mwyn sicrhau bod ein hymchwil mor amrywiol a chynhwysol â phosibl - gan wneud gwahaniaeth ystyrlon i drawstoriad o gymunedau ledled Cymru.

Cyflawnir hyn drwy sawl ymarfer cwmpasu, ystadegau a data gan StatsCymru, datblygu cronfeydd data rhanddeiliaid, dealltwriaeth a datblygu’r perthnasoedd presennol sydd wedi’u datblygu o fewn ein gweithgor. Bydd gwaith (wedi’i wneud ar y cyd ag aelodau o’n cymuned ymchwil) hefyd yn cael ei gynnal i gyrraedd grwpiau allweddol nad ydym wedi ymgysylltu â nhw o’r blaen, i godi ymwybyddiaeth o effaith ymchwil a’u hysbrydoli yn y camau nesaf ynghylch sut y gallant lunio, darganfod mwy am ymchwil neu fod yn rhan ohoni.

Ein bwriad yw sicrhau bod y rhan fwyaf o’r cynnwys yr ydym yn ei gynhyrchu mor hygyrch â phosibl i bobl o bob gallu a phan fo’n bosibl, yn cael ei gyfieithu i ieithoedd brodorol .

# 4 Dealltwriaeth

Gofynnodd arolwg YouGov a gafodd ei gynnal ar ran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru amrywiaeth o gwestiynau i 1,000 o ymatebwyr ynghylch eu dealltwriaeth o ymchwil coronafeirws - yn enwedig ymchwil yn y DU - a’r rhan yr oedd wedi’i chwarae yn goresgyn y pandemig.

Darganfu'r arolwg:

- Bod 91% o bobl yng Nghymru yn credu bod ymchwil iechyd yn y DU wedi bod yn bwysig yn ystod pandemig COVID-19
- Bod 34% nawr yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymchwil iechyd oherwydd y pandemig
- Bod 86% yn teimlo bod y DU wedi chwarae rhan bwysig wrth ddod o hyd i driniaethau COVID-19
- Bod 87% yn falch o ymchwilwyr y DU a staff y GIG a oedd wedi nodi rhai o'r triniaethau a brechlynnau effeithiol cyntaf
- Bod 91% yn teimlo'n ddiolchgar i'r bobl sydd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil ar gyfer brechlynnau, profion a thriniaethau
- Bod 78% yn awyddus i ymchwil iechyd fod yn rhan o ofal arferol y mae'r GIG yn ei gynnig.

Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd yn gwybod bod ysbytai lleol y GIG yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil iechyd COVID-19 (60%) neu ymchwil iechyd nad oedd yn gysylltiedig â COVID-19 (71%). Byddwn hefyd yn ceisio tracio'r ystadegau hyn o ran ymchwil gofal cymdeithasol mewn arolygon sydd i ddod, a dealltwriaeth bresennol.

Yn sgil ein gwaith gyda rhwydweithiau presennol, perthnasoedd a'r grŵp cynghori ar ymgysylltu â'r cyhoedd, gwelir mai'r rhwystrau presennol rhag ymgysylltu, fel sydd wedi'u nodi o brofiad bywyd, yw cyfyngiadau amser, diffyg cydnabyddiaeth o'r rhai sydd wedi buddsoddi eu hamser ac yn cael eu dychryn gan jargon, neu gan daith gymhleth a hir i ddechrau arni. Mae hyn wedi helpu i lunio'r strategaeth o ran sut yr ydym yn cefnogi pobl i gymryd rhan mewn ymchwil, gan ystyried y rhwystrau hyn.

# 5 Gweithredu

Gan ystyried y ddealltwriaeth, rydym wedi datblygu pum piler strategol allweddol i sicrhau ein bod yn ehangu cyrhaeddiad ymgysylltu ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ac yn goresgyn y rhwystrau rhag ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus aml-lwyfan
2. Datblygu perthnasoedd ystyrlon
3. Alinio â strategaethau'r DU
4. Datblygu negeseuon allweddol hawdd eu deall, wedi'u safoni ledled Cymru
5. Galluogi ymchwilwyr, uwch arweinwyr, arweinwyr cynnwys y cyhoedd, prif ymchwilwyr, staff cymorth a chyflenwi i weithredu fel eiriolwyr a chenhadon sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ac effaith ymchwil yn eu sectorau

### 1. Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus aml-lwyfan

Fel sydd i'w weld o ganlyniadau'r arolwg YouGov, nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd yn gwybod bod ysbytai lleol y GIG yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil iechyd COVID-19 (60%) neu ymchwil iechyd nad oedd yn gysylltiedig â COVID-19 (71%).

Mae ymwybyddiaeth yn hollbwysig.

Er mwyn cychwyn y sgwrs ac annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i ni godi ei phroffil. Er mwyn gwneud hyn, mae angen ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus aml-lwyfan. Bydd y cyfathrebu'n ddi-ildio er mwyn torri trwy'r holl sŵn yn y cyfryngau a bydd yn cynnwys cymaint o storïau gwir o ddiddordeb dynol â phosibl, gan greu cynnwys cynhyrfiol y mae'n hawdd uniaethu ag ef. Y nod yw addysgu, ysbrydoli ac ysgogi.

Er mwyn ailadrodd yr alwad i weithredu ym mhob elfen pa un ai'n ddigidol, mewn digwyddiadau neu drwy'r wasg, bydd yr ymgyrch yn cael ei phecynnu o dan un thema gyffredinol, sef:

**Ble fyddem ni heb ymchwil?**

Mae ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn achub bywydau, i gael gwybod mwy ewch i www.healthandcareresearchwales.org/bydhebymchwil

**Where would we be without research?**

Health and social care research saves lives, to find out more visit www.healthandcareresearchwales.org/withoutresearch

Mae'r llinell drosfwaol hon fel rhan o'r ymgyrch yn rhoi hyblygrwydd i ni daro tant emosiynol o ran y cyhoedd. Drwy newid gair olaf y llinell ymgyrchu, gallwn newid pwyslais ein cynnwys ni er mwyn siarad â gwahanol gynulleidfaoedd. Er enghraifft 'Ble fyddem ni heb... gyfranogwyr, ymchwil diabetes, y brechlyn COVID' ac ati.

Mae'r llinell yn llwyddo i ddangos effaith frawychus byd heb ymchwil, gan fod ymchwil yn dueddol o fod yn rhywbeth nad yw pobl hyd yn oed yn meddwl amdani, gan ei bod yn dueddol o ddigwydd yn y cefndir i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r triniaethau gorau yn seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y dull aml-lwyfan yn galluogi'r ymgyrch i gyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd targed a darparu cyhoeddiadau cyson i'r cyhoedd gan fod ailadrodd yn helpu i ledaenu'r neges.

Bydd y dulliau'n cynnwys:

- Pecynnau cyfathrebu ar gyfer byrddau iechyd a staff gofal cymdeithasol
- Digwyddiadau mewnol sy'n canolbwyntio ar staff
- Cynnwys yn benodol ar gyfer safleoedd GIG/ gofal
- Safle micro pwrpasol ar gyfer y cyhoedd
- Fideos sy'n egluro
- Digwyddiadau, gweminarau, gweithgareddau all-gymorth
- Cyswllt â'r cyfryngau yn rhannu storiâu o ddiddordeb dynol yn amlygu effaith ymchwil
- Cynnwys atyniadol ar y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys polau, ffeithluniau, cardiau dyfyniadau, clipiau fideo
- Deunydd cyfochrog nad yw'n ddigidol gan gynnwys posteri, cardiau z, hysbysebu y tu allan i'r cartref
- Cyfres o bodlediadau gyda phob pennod yn ymchwilio i ble y byddem ni heb ymchwil gyda rhestr o siaradwyr gwadd
- Pecynnau addysgol i ysgolion

- Darnau arwain agweddau yn hyrwyddo arweinwyr arbenigol, a'u gwneud yn llais ymchwil Cymru

**2. Datblygu perthnasoedd ystyrlon**

Ni fyddai ymgysylltu'n bosibl heb berthnasoedd. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad sydd wir yn ystyrlon ac amrywiol, mae'n rhaid meithrin perthnasoedd o fewn amrywiaeth o gymunedau, gan ddefnyddio grwpiau a rhwydweithiau presennol lle mae pobl yn teimlo fwyaf cyfforddus.

Fel y mae strategaeth glinigol ymchwil y DU, Achub a Gwella Bywydau: Dyfodol Cyflenwi Ymchwil Clinigol yn y DU, yn ei nodi, i wneud hyn yn gynaliadwy, mae angen i ni sicrhau bod cefnogaeth ar gael lle mae ei hangen fwyaf, gan gynnwys lleoliadau cynradd a chymunedol, fel y gallwn ddarparu ymchwil 'lle mae pobl' ac ymgysylltu'n weithredol â chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

Pa un a yw hynny drwy ddefnyddio grwpiau ffydd, y trydydd sector neu hyd yn oed grwpiau chwaraeon, rhaid i bob ymgysylltiad ddefnyddio llwyfannau dibynadwy i ymgysylltu â'r rhai nad ydynt erioed wedi ystyried ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.

Yna, y nod yw addysgu, ysbrydoli ac ysgogi'r rheini i gymryd rhan.

**3. Alinio â strategaethau'r DU**

Mae pandemig a threialon brechlynnau wedi cadarnhau cryfder y dull pedair gwlad ac mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i chwarae ei rhan wrth ddarparu system ymchwil glinigol y DU sy'n arwain y byd.

Fel partner yn cyflawni nifer o strategaethau ledled y DU, bydd Cymru'n cydweithio â'r holl randdeiliaid i wella iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae'r weledigaeth hon a'r cynllun hwn yn cyd-fynd â strategaeth 'Cymru Iachach', lle mae unigolion wrth wraidd trawsnewid a moderneiddio gwasanaethau iechyd a gofal, a lle mae ymchwil yn rhan annatod o ofal o safon.

Wrth i ni ddatblygu ein mentrau, byddwn yn sicrhau ein bod ni'n parhau i weithio mewn partneriaeth â chenhedloedd eraill y DU. Mae hyn yn golygu y bydd ein gwaith yn ategu gweithgaredd ledled y DU i ddarparu cysondeb a phrofiad tebyg i bobl sydd â phrofiad bywyd ym mhob rhan o'r DU.

Bydd pob gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystyried Strategaeth Gofal Cymdeithasol Cymru a Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd fel un o'r camau nesaf. Hefyd, bydd rhywfaint o'r gwaith yn cyd-fynd yn naturiol â mentrau eraill, er enghraifft datblygu 'Be Part of Research', lle gall pobl ddod o hyd i astudiaethau ymchwil i gymryd rhan ynddynt; a gweithredu strategaeth dryloywder 'Make it Public', sy'n ceisio sicrhau bod gwybodaeth am ymchwil ar gael yn rhwydd a bod y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil yn cael adborth.

**4. Datblygu negeseuon allweddol hawdd eu deall, wedi'u safoni ledled Cymru**

Gan fanteisio ar y dull gweithredu cenedlaethol, un o'r heriau sydd wedi bod o ran ymgysylltu â'r cyhoedd yw'r lefelau amrywiol o ymgysylltu a fu ar draws y gymuned a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sefydliadau'r GIG a gofal cymdeithasol, ymchwilwyr ac academyddion. Er mwyn annog cymaint o ymgysylltu â phosibl, mae'n amlwg y dylai cyfres o negeseuon allweddol a therminoleg gytunedig gael eu defnyddio ledled Cymru pan fyddwn yn cyfarfod â'r cyhoedd, er mwyn sicrhau cysondeb.

Y negeseuon allweddol y byddwn yn eu defnyddio ac a fydd wrth wraidd yr holl waith yw'r canlynol:

- Mae ymchwil wedi'i chynllunio i wella bywydau
- Mae ymchwil wedi chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu triniaethau ar gyfer COVID-19
- Bydd ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithio ar bob un ohonom rywbryd
- Mae'r rhan y mae cyfranogi a chynnwys y cyhoedd yn chwarae mewn ymchwil yn hollbwysig er mwyn ysgogi gwelliannau mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Ochr yn ochr â chyfres o negeseuon cytunedig, mae deall iaith. Mae terminoleg yn bwysig iawn yn y sector ymchwil ond gall achosi dryswch wrth siarad ag aelodau o'r cyhoedd sydd heb brofiad neu sydd â phrofiad prin iawn o ymchwil.

Mae defnyddio jargon wedi peri i bobl beidio ag ymgysylltu ag ymchwil. Bydd yr iaith a ddefnyddir wrth siarad â chynulleidfa gyhoeddus heb brofiad o ymchwil yn adlewyrchu gwefan Ymchwil Iechyd a Gofal ac yn osgoi amrywiadau penodol o ran *cyfranogi* a *chynnwys* ac yn defnyddio ymadroddion fel: *darganfod*, *cymryd rhan* a *helpu i lunio ymchwil*. Bydd hyd yn oed y term *ymgysylltu â'r cyhoedd* yn cael ei ddefnyddio'n gynnil a bydd yr iaith yn anffurfiol, yn hygyrch, yn gynhyrfiol ac yn ennyn chwilfrydedd.

5. **Galluogi ymchwilwyr, uwch-arweinwyr, arweinwyr cynnwys y cyhoedd, staff cymorth a chyflenwi**

Mae gweithgaredd penodol sy'n canolbwyntio ar adrannau ymchwil a datblygu'r GIG, ymchwilwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol yn hollbwysig. Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae angen i ni sicrhau bod gan y seilwaith ymchwil ledled Cymru negeseuon cyfathrebu cyson.

Bydd yr holl randdeiliaid allweddol yn cael eu briffio a bydd ein gwaith o ran dealltwriaeth yn sicrhau bod y negeseuon a'r amcanion yn cael derbyniad da.

Bydd dogfennau cytundebol, dogfennau llywodraethu, dogfennau canllaw a'r holl Hyfforddiant Cynnwys y Cyhoedd ledled Cymru yn cael eu diwygio i helpu i gynyddu'r gydnabyddiaeth o gyfranwyr cyhoeddus a chynyddu'r adborth iddynt ynghylch yr astudiaeth ymchwil yr oeddent yn rhan ohoni.

Bydd pecynnau cymorth a thempledi hefyd yn cael eu datblygu i helpu arweinwyr cynnwys y cyhoedd, ymchwilwyr a staff gyda'r darn hanfodol hwn o waith, bydd profiadau gwael o ymgysylltu yn rhwystro ei dwf ac elfen allweddol o gymryd rhan yw bod yn falch o effaith yr ymchwil sy'n newid bywydau a bod yn rhan ohoni.

## 6 Gwerthuso gweithgaredd allweddol

Bydd y strategaeth hon yn cynnwys y tair blynedd nesaf o waith a byddwn yn ceisio ei hadolygu a myfyrio arni bob 12 mis.

Rhaid i ni fesur hyn drwy gymharu â chanlyniadau arolwg YouGov, y byddwn yn ceisio'i ailadrodd ymhen tair blynedd gan ychwanegu cwestiynau gofal cymdeithasol, aelodaeth y gymuned cynnwys y cyhoedd, ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, adborth anecdotaidd, canlyniadau arolygon cyfranogwyr (PRES), presenoldeb mewn digwyddiadau, ymweliadau ag adran gyhoeddus gwefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chynnydd yn nifer yr ymchwilwyr sy'n ymgorffori cyfranogiad ystyrlon y cyhoedd ar draws eu hastudiaethau.

Byddwn yn tracio llwyddiant y strategaeth o'i chymharu â'r dangosyddion perfformiad allweddol isod.

Cynnydd o 10% yn nifer y bobl yng nghymuned Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn 12 mis

Cynyddu perthnasedd ac amrywiaeth (gan adlewyrchu Cymru) pobl yng nghymuned Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn 12 mis

Cynyddu ymweliadau yng Nghymru â gwefan Be Part of Research 10% yn ystod y 12 mis nesaf

Tracio nifer yr asedau sy'n cael eu lawrlwytho, ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, ymweliadau â safle micro ar gyfer y cyhoedd

Cynnydd o 10% yn nifer y bobl sy'n debygol o gymryd rhan mewn ymchwil iechyd oherwydd y pandemig yn arolwg YouGov

Adborth ansoddol, sylwadau anecdotaidd, effaith wirioneddol ar gleifion/defnyddwyr gwasanaethau, ffyrdd newydd o weithio/triniaethau newydd ac ati.

I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Hannah.Bertie@nhs.wales.uk

---

[i] Roedd aelodau'r gweithgor yn cynnwys:

- Felicity Waters, Pennaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chynnwys, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (Cadeirydd)
- Hannah Bertie, Uwch-reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Reshma Raycoba, Pennaeth Cynnwys y Cyhoedd, Llywodraethu Ymchwil y GIG a Digidol (Dros Dro); Is-adran Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Llywodraeth Cymru
- Adele Battaglia Aelod cyhoeddus
- Karen Harrington Aelod cyhoeddus
- Cait Myers, Rheolwr Ymgyrchoedd ac Ymgysylltu, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Rebecca Burns, Rheolwr Cynnwys y Cyhoedd, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Rachael Vaughan, Gweithiwr Ymgysylltu, Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE)
- Catrin Hopkins, Rheolwr Cyfathrebu, Is-adran Meddygaeth Seicolegol a Niwrowyddorau Clinigol
- Soo Vinnicombe, Swyddog Ymchwil ac Arweinydd Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd, Prifysgol Bangor
- Sarah Hatch, Rheolwr Ymgysylltu, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd
- Dr Emma Yhnell, Darlithydd, Ysgol y Biowyddorau, Gwyddor Biofeddygol a Niwrowyddoniaeth
- Emma Hughes, Rheolwr Polisi ac Ymgysylltu, Cynghrair Geneteg Cymru y DU